



Mohammed Mehmet
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Wynnstay Road
Ruthun, LL15 1YN

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

10 Awst 2015

Annwyl Mr Mehmet

Adolygiad o Gartrefi Gofal: Dadansoddiad o'ch ymateb terfynol

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am roi ymateb terfynol i'm Hanghenion Gweithredu, sef ymateb yr wyf wedi cael cyfle i'w ddadansoddi bellach.

Wrth ddadansoddi'r ymateb a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn.

Mae'ch ymateb yn dangos ymrwymiad i gyflawni'r newid angenrheidiol a amlinellais yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal ac mae'n manylu ar gamau rydych chi wedi'u cymryd neu y byddwch yn eu cymryd er mwyn cyflawni nifer o'r canlyniadau arfaethedig.

Mae'n dda gen i fod eich sefydliad wedi defnyddio'r adborth adeiladol a roddais yn gynharach yn y flwyddyn er mwyn gwella'ch ymateb. Mae'n dda gweld bod yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd mewn rhai o'r Anghenion Gweithredu.

Mae'ch sefydliad wedi cynnig mynd ati i ddatblygu gwasanaethau neu brosesau newydd sydd â'r potensial i symud ymlaen fel arferion gorau. Er enghraifft, byddwch yn sicrhau bod gwybodaeth am y gwasanaeth

eiriolaeth newydd yn cael ei chynnwys ym mhecynnau croeso a llyfrynnau'r cartrefi gofal (Angen Gweithredu 1.6).

Gan hynny, rwy'n fodlon bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'm Hanghenion Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r newid angenrheidiol. Serch hynny, rhaid imi nodi bod dau faes o hyd lle mae angen rhagor o waith er mwyn rhoi sicrwydd imi y bydd y newid a'r gwelliant angenrheidiol yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn.

Byddwn i hefyd yn disgwyl eich gweld yn datblygu gweithdrefnau clir ar gyfer adolygu a chlориannu er mwyn rhoi sicrwydd ar lefel uchel yn eich sefydliad y bydd y canlyniadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

Mae dadansoddiad manwl wedi'i atodi o'r wybodaeth ychwanegol a roesoch mewn ymateb i'm cais.

Fel y gwyddoch, o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb.

Fel y dywedais yn barod, byddaf yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu ledled Cymru ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol am hyn ac am y camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd. Caiff y datganiadau hyn eu gwneud ar 11 Awst.

Rwy'n bwriadu cynnal adolygiad dilynol ymhen 18 mis, pryd y byddaf yn chwilio am dystiolaeth bendant bod y canlyniadau yr wyf yn disgwyl eu gweld wedi'u cyflawni'n gyson ar draws cartrefi gofal eich ardal. Yn nes ymlaen, byddaf yn rhoi gwybod ichi am hyd a lled yr adolygiad a'r dull y byddaf yn ei ddefnyddio.

Er hynny, mae yna nifer o feysydd y bydd arna i angen diweddariad a sicrwydd yn eu cylch yn y cyfamser ac fe fyddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân ynglŷn â'r rhain a sut y byddaf yn gofyn ichi wneud hyn.

Os byddai o gymorth ichi gael cyfarfod i drafod fy nadansoddiad amgaeedig o'r ymateb, cysylltwch â mi. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio â chi i sicrhau bod gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yr ansawdd bywyd gorau posibl a'r safonau gofal uchaf.

Yn gywir



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyngor Sir Ddinbych

Angen Gweithredu 1.6

Casgliad Terfynol - Derbyniol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu'n dangos ymrwymiad clir i gynnig eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau y cyfeirir atyn nhw yn yr Angen. Fe allai darparu eiriolaeth i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau hyn eu galluogi i sicrhau eu hawliau a sicrhau bod sylw'n cael ei roi i'w pryderon mewn sefyllfaoedd lle maen nhw'n arbennig o agored i niwed.

Er enghraifft, mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi gwybodaeth am rôl gwasanaeth eiriolaeth Age Connects sy'n cael ei gomisiynu ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac sy'n rhoi hyder i'r preswylwyr 'godi llais' ac sydd hefyd yn codi ymwybyddiaeth o eiriolaeth ymysg staff cartrefi gofal. Codais bryder ynglŷn ag ymateb cychwynnol yr Awdurdod Lleol, sef nad oedd yn glir a oedd gwasanaeth eiriolaeth Age Connects ar gael i bobl hŷn yng nghartrefi gofal yr Awdurdod Lleol a chartrefi gofal y sector annibynnol. Mae'n dda gen i nodi felly fod ymateb yr Awdurdod Lleol yn cadarnhau bod y gwasanaeth ar gael yn y ddau fath o gartref gofal. Ar ben hynny, rwy'n croesawu'r ffaith bod yr ymateb yn cadarnhau y gall eiriolaeth gael ei chynnig i bobl hŷn pan fo cartref gofal yn cau a hefyd wrth iddyn nhw symud o'r ysbyty i gartref gofal. Mae'r ymateb yn glir yn

dangos dealltwriaeth o resymau cadarnhaol dros ddarparu eiriolaeth annibynnol a'r canlyniadau a all gael eu sicrhau i bobl hŷn yn eu sgil.

Er hynny, mae'n rhaid imi nodi bod ambell faes o hyd lle y gallai'r ymateb gael ei gryfhau. Er enghraifft, mae'r ymateb yn cydnabod y gall fod yn anodd i bobl hŷn gael gafael ar y gwasanaeth eiriolaeth pan fydd angen i'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol hwyluso pethau i ryddhau claf o'r ysbyty yn gynnar. Rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod y diffyg hwn, a'i ymrwymiad i gydweithio â'r Bwrdd Iechyd i wella'r ddarpariaeth. Er hynny, does dim cynllun gweithredu clir ar gyfer y gwaith hwn, sef cynllun y byddwn yn disgwyl ei weld er mwyn imi fod yn hyderus o weld gwelliant yn y ddarpariaeth hon mewn amserlen bendant.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod yr ymateb yn rhoi eglurhad ynghylch cynnig darparu eiriolaeth yn ystod pryderon POVA. Er hynny, mae'n ymddangos bod yna amod mai dim ond pan nad oes gan y person hŷn 'neb arall i'w gefnogi' y mae hyn yn cael ei ddarparu. Fe allai hyn fod yn briodol mewn llawer o achosion, ond mae yna bobl hŷn y byddai hyn yn amhriodol iddyn nhw a byddwn yn disgwyl gweld rhagor o eglurhad ar sut mae'r dyfarniad hwn yn cael ei wneud.

Yn olaf, rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i roi gwybodaeth am wasanaeth eiriolaeth newydd gan Age Connects mewn 'pecynnau croeso a llyfrynnau cartrefi' erbyn 31 Gorffennaf. Fe allai hyn sicrhau bod pobl hŷn yn ymwybodol bod eiriolaeth ar gael ac o ganlyniad i hynny fe allen nhw gael eu galluogi i ddefnyddio'r gwasanaeth ac i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed a bod sylw'n cael ei roi i'w pryderon.

Angen Gweithredu 2.2

Casgliad Terfynol - Rhannol

2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol wedi arddel ymagwedd gydweithredol gyda'r Bwrdd Iechyd ynghlŷn â'r cartrefi gofal sy'n cael eu

rhedeg gan yr Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau y gall pobl hŷn gyrchu gwasanaethau arbenigol a gofal amlddisgyblaeth, gan gynnwys cymorth ynglŷn ag ail-alluogi ac adsefydlu, ac rwy'n nodi bod yr Awdurdod Lleol yn monitro'r ddarpariaeth gwasanaethau a bodolaeth gwaith effeithiol ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd Drwy Gyfrwng Adroddiadau ar Arolygiadau. Fe ddylai hyn fod â'r potensial i sicrhau bod gan bobl hŷn y cymorth y mae arny'n nhw ei angen i'w galluogi i gynyddu eu hannibyniaeth a'u hansawdd bywyd i'r eithaf ar ôl cyfnod o salwch. Er hynny, nid yw'r ymateb ei hun yn rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch a yw'r arolygiadau wedi dangos bod y cyfle i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn yn ddigonol ac a yw ansawdd y gwasanaethau'n ddigonol.

Rwy'n cydnabod bod yr Awdurdod Lleol yn gwybod bod angen iddo ystyried ymhellach i ba raddau y mae'r gwasanaethau hyn ar gael ac yn cael eu monitro mewn cartrefi yn y sector annibynnol, a'i fod yn bwriadu gwneud y gwaith hwn gyda chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd a chynrychiolwyr o'r sector annibynnol erbyn mis Hydref 2015.

Er hynny, does dim rhagor o fanylion am sut mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu cymryd camau posibl i wella'r ddarpariaeth ar ôl y gwaith hwn. Heb fynediad i wasanaethau o'r fath, mae pobl hŷn yn wynebu risg o fod yn llai symudol, mwy eiddil, colli annibyniaeth a chael problemau iechyd arwyddocaol yn y dyfodol. Heb y manylion hyn, felly, does dim modd imi fod yn gwbl sicr bod gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi yn y sector annibynnol fynediad cyfartal i ofal arbenigol a gofal amlddisgyblaeth.

Angen Gweithredu 3.2

Casgliad Terfynol - Rhannol

3.2 Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae'r holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o oruchwylio ac asesu perfformiad.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod yr ymateb i'r Angen Gweithredu hwn gan yr Awdurdod Lleol yn dangos ymrwymiad i roi cyrsiau hyfforddi mewn

dementia ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol. Er enghraifft, mae'n dweud bod nifer fawr o gyrsiau dementia wedi'u cyflwyno eisoes a'i fod wrthi'n edrych ar hyfforddiant uwch addas mewn dementia i'w gynnwys yng Nghynllun Hyfforddi 2015/16. Ar ben hynny, er nad yw hyn yn perthyn yn benodol i hyfforddiant dementia, mae yna gyfeiriad at ddarparu hyfforddiant ar hanfodion gofal mewn cartrefi nyrsio.

Serch hynny ac er bod yr wybodaeth hon yn dangos ymwybyddiaeth bod rhaid gwella'r ddarpariaeth, siom yw nodi nad yw'n darparu gwybodaeth am y niferoedd presennol o staff cartrefi gofal sy'n manteisio ar hyfforddiant dementia ac nad yw'n cynnwys ymrwymiad pendant i ddarparu hyfforddiant sylfaenol mewn dementia fel rhan orfodol o gyfnod ymsefydlu'r holl staff mewn cartrefi gofal. Heb hyn, fydd yr holl staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal ddim yn hollol barod i ddeall anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn sy'n byw â dementia.

Ar ben hynny, mae'r cyfeiriad at ystyried opsiynau ynglŷn â hyfforddiant uwch mewn dementia yn dangos y gallu i wrando ar anghenion hyfforddi'r sector a diwygio'r ddarpariaeth yn sgil hynny. Ond, nid yw'n dweud yn bendant y bydd ymgymryd â rhagor o hyfforddiant dementia yn rhan o ddatblygiad parhaus sgiliau a chymwyseddau staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal. Gan hynny, er fy mod yn cydnabod yr ymrwymiad clir i wella argaeledd hyfforddiant dementia i'r sector, rwy'n methu bod yn gwbl sicr y bydd yr Angen Gweithredu'n cael ei fodloni.

Angen Gweithredu 3.3

Casgliad Terfynol - Derbyniol

3.3 Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar gyfeillgarwch sy'n bodoli. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus i gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol.

Mae'r ymateb i'r Angen Gweithredu hwn yn cynnwys enghreifftiau o gynlluniau cyfeillio sy'n gweithredu ar hyn o bryd yn yr ardal, megis Gofal, ac mae'n ymrwymo i ystyried sut y gellir sicrhau ei fod ar gael yn

ehangach i breswylwyr cartrefi gofal. Codais bryder ynghylch ymateb cychwynol yr Awdurdod Lleol sef, er ei fod yn dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfeillio, ac yn cynnwys enghreifftiau cadarnhaol megis trefnu gwasanaethau eglwys mewn cartrefi gofal, fod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod sylw'n cael ei roi i anghenion ac amgylchiadau cymdeithasol a diwylliannol yr holl breswylwyr.

Gan hynny, rwy'n croesawu'r ffaith bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu yn dweud bod pob ymdrech yn cael ei gwneud pan dderbynnir unigolyn i ofal i ddod o hyd i'w ddiddordebau, a'i fod yn mynd ymlaen i esbonio sut mae adnoddau cymunedol yn cael eu cyrchu gan gydnabod hefyd fod angen cynlluniau cyfeillio priodol yn y lleoliad gofal er mwyn lleihau gymaint ag y bo modd ar arwahanrwydd cymdeithasol pobl hŷn sy'n ei chael yn anodd symud o gwmpas. Mae'n dda gweld y bydd yr angen i wella cynlluniau cyfeillio yn cael sylw yng Nghynllun Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych, a phan fydd manylion terfynol y cynllun hwnnw'n cael eu pennu ym mis Hydref 2015 rwy'n disgwyl yn llawn y bydd yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, mynediad parhaus i gymorth wedi'i seilio ar ffydd a chymunedau diwylliannol penodol.

Mae angen hyn er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu helpu i barhau â phob cyfeillgarwch presennol, i gael cysylltiadau cymdeithasol ystyrlon ac i barhau i arddel eu ffydd a chynnal cysylltiadau diwylliannol pwysig. Heb gyfle ar gyfer cysylltiadau cymdeithasol ystyrlon, mae yna risg y gall pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal fod yn unig ac ar wahân yn gymdeithasol.

Angen Gweithredu 5.6

Casgliad Terfynol - Derbyniol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bwyd a gofal i

breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwelliannau parhaus.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

Angen Gweithredu 6.2

Casgliad Terfynol - Derbyniol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dangos ymrwymiad clir i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed a'u defnyddio er mwyn helpu i sbarduno gwelliannau.

Er enghraifft, rwy'n croesawu'r ffaith bod yr ymateb yn cynnwys enghraifft fanwl o sut yr arweiniodd cyfarfod â'r preswylwyr mewn un cartref gofal at nifer o newidiadau o ran darparu prydau bwyd a gweithgareddau. Ar ben hynny, mae gwybodaeth wedi'i rhoi am ddefnyddio holiaduron 'Lleisiwch eich barn' a rôl prosiect 'Codi llais' Age Connects er mwyn i faterion gael eu codi gyda'r cartrefi gofal os nad yw'r preswylwyr yn teimlo'n gyffyrddus yn gwneud hynny.

Mae'r wybodaeth hon yn dangos bod yr Awdurdod Lleol yn gallu casglu barn y preswylwyr a defnyddio'r farn honno i sbarduno gwelliannau. Er hynny, rhaid imi nodi mai ffurfiol yw'r dulliau sydd wedi'u nodi yn yr enghreifftiau hyn. Er bod ganddyn nhw ran i'w chwarae o ran deall

ansawdd bywyd, drwy gynnwys ffyrdd llai ffurfiol a mwy ad hoc o wrando a dysgu oddi wrth brofiadau pobl hŷn, byddai gan y comisiynwyr a'r darparwyr ddealltwriaeth fwy 'beunyddiol' a fyddai'n cyd-fynd yn dda â'r ddealltwriaeth a geir drwy holiaduron a chyfarfodydd i breswylwyr.

Rwy'n croesawu'r ymrwymiad i ddatblygu datganiad clir ynghylch y canlyniadau ar gyfer pobl hŷn a'u hansawdd bywyd drwy wrando a thrwy weithredu ar yr hyn sy'n cael ei glywed, sydd i'w gynnwys yng nghynllun Sir Ddinbych ar gyfer Heneiddio'n Dda yng Nghymru. Er hynny, byddwn yn disgwyl i'r cynllun gael ei ddiweddarau bob blwyddyn er mwyn iddo gydymffurfio'n llawn â'r Angen Gweithredu, sef y 'dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus'.

Angen Gweithredu 6.7

Casgliad Terfynol - Derbyniol

6.7 Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- argaeledd eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, yn cynnwys cyfeiriad penodol at
- bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrau
- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol safbwyntiau pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg ynghylch yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal
- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylai manylion ychwanegol ynghylch gofynion adrodd yn ôl gael eu cynnwys fel rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen
Gweithredu hwn yn dangos parodrwydd i gydymffurfio a llunio
gwybodaeth flynyddol am yr ansawdd bywyd a'r gofal sy'n cael eu
darparu gan neu o fewn cartrefi gofal unigol ac sydd ar gael i bobl hŷn.
Bydd hyn yn sicrhau bod gan bobl hŷn gyfle i weld gwybodaeth berthnasol
ac ystyrlon, a bod pawb yn fwy agored a thryloyw ynghylch ansawdd
cartrefi gofal